# Cymru: cyfarfod dirprwyedig Chwefror 2025

04/03/2025
See all updates
Atodlen o benderfyniadau o dan bwerau dirprwyedig Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer Cymru ar 4 Chwefror 2025.
Penderfyniadau ariannu

## Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol £10,000 i £250,000

### Dolgarrog: Pentre Bach, Stori Fawr

Ymgeisydd: Cyngor Cymuned Dolgarrog

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect dwy flynedd yw hwn i adrodd hanes pentref Dolgarrog gan ddefnyddio'r achlysur 100 mlynedd yn ôl pan fu trychineb argae uwchben y pentref fel sylfaen.

Penderfyniad: Gwrthod

### Gwarchod Treftadaeth G?yr: Cofleidio Arwyddion Dwyieithog i Ddathlu'r Iaith Gymraeg, Diwylliant, a Chynhwysiad ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol

Ymgeisydd: Y Felin Dd?r

Disgrifiad o'r Prosiect: Mae'r prosiect pum mis yn cynnwys cyflwyno arwyddion dwyieithog i sicrhau bod Canolfan Treftadaeth G?yr yn cynrychioli treftadaeth ieithyddol a diwylliannol Cymru.

Penderfyniad: Gwrthod

### The Steel Storybook: a community reclaiming its industrial heritage through the arts

Ymgeisydd: Prifysgol Abertawe

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect dwy flynedd yw hon sy'n seiliedig ar dreftadaeth ddur Port Talbot. Bydd Prifysgol Abertawe, gan weithio gyda Theatr3 a Raspberry Creatives CIC, yn cynnal gweithdai gydag aelodau o'r gymuned i recordio archif sain o atgofion a storïau lleol yn ymwneud â threftadaeth ddur y dref.

Penderfyniad: Gwrthod

### Learning from the Past: Giving to the Future

Ymgeisydd: Prosiect Down To Earth

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect dwy flynedd yw hwn sydd â'r nod o gyflwyno amrywiaeth o raglenni addysgol â ffocws ar lesiant a chyrsiau hyfforddi mewn adeiladu traddodiadol a naturiol a rheoli tir cynaliadwy i bobl ifanc ac oedolion o grwpiau cymunedau difreintiedig ac agored i niwed yng Nghastell-nedd Port Talbot, Abertawe a Sir Gâr.

Penderfyniad: Gwrthod

## Llwybrau Treftadaeth: Cysylltu Cymunedau a Bywyd Gwyllt Ceredigion

Ymgeisydd: Cyngor Sir Ceredigion

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect pedair blynedd yw hwn a fydd yn ceisio gwarchod treftadaeth naturiol Ceredigion rhag dirywiad ecolegol, cryfhau'r cysylltiad rhyngddi a phobl, gwella mynediad a dealltwriaeth a gwella bioamrywiaeth ar nifer o safleoedd ar draws y Sir.

Penderfyniad: Gwrthod

## Art & Activism at the Heart of the Coalfield

Ymgeisydd: The Ystradgynlais Miners Welfare And Community Hall Trust Limited

Disgrifiad o'r Prosiect: Nod y prosiect dwy flynedd hwn yw dod â chenedlaethau gwahanol o gymuned Ystradgynlais, De Cymru ynghyd i archwilio a mwynhau eu treftadaeth trwy ddysgu digidol rhwng y cenedlaethau, recordio hanes llafar, gwneud baneri a dathlu cymunedol.

Penderfyniad: Dyfarnu grant o £46,242 (90%)

## Tracks Through Time

Ymgeisydd: Ymddiriedolaeth Sied Nwyddau Rheilffordd Llanelli

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect un flwyddyn yw hwn sydd â’r nod o atgyweirio ac adfer adeilad rhestredig Gradd II y Sied Nwyddau Rheilffordd yn Llanelli, gan ei wneud yn gwbl cadarn rhag y tywydd a d?r glaw at ddefnydd y gymuned.

Penderfyniad: Dyfarnu grant o £220,000 (50%)

## Rockpool Rangers

Ymgeisydd: Beach Academy CIC

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect tair blynedd (Mawrth 2025 i Fawrth 2028) i wella gwybodaeth am byllau glan môr, cynnig cyfleoedd i ofalu amdanynt ac addysgu pobl sydd â’r sgiliau a’r wybodaeth i archwilio pyllau glan môr mewn ffordd sy’n lleihau niwed a difrod.

Penderfyniad: Gwrthod

## Mynachlog Fawr – Emergency Repairs and Community Led Development

Ymgeisydd: Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect 9 mis yw hwn sydd â’r nod o gyflawni gwaith atgyweirio brys i ffermdy Mynachlog Fawr rhestredig gradd II*, ynghyd â darparu cyfleoedd ar gyfer myfyrwyr ac unigolion â diddordeb.

Penderfyniad: Dyfarnu grant o £122,151 (94%)

## Freshwater Futures – Creating resilient waterways and communities in Gwent

Ymgeisydd: Ymddiriedolaeth Natur Gwent.

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect tair blynedd (Ebrill 2025 i Fawrth 2028) gyda'r nod o wella bioamrywiaeth d?r croyw ac iechyd ecosystemau ar bum afon yng Ngwent trwy gynnwys cymunedau lleol mewn gweithgareddau sgiliau ymarferol a gwyddoniaeth dinasyddion i feithrin cysylltiad rhwng pobl a chreu model cynaliadwy ar gyfer cyfranogiad cymunedol hirdymor.

Penderfyniad: Gwrthod

## Denbigh Museum at the Buttermarket (part of the larger project the Buttermarket Culture, Heritage and Wellbeing Centre)

Ymgeisydd: Denbigh Museum / Amgueddfa Dinbych

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect tair blynedd yw hwn i adleoli casgliad Amgueddfa Dinbych o'r Hen Lys Ynadon anaddas i'r Farchnad Fenyn restredig Gradd II ar ei newydd wedd yng nghanol tref Dinbych.

Penderfyniad: Gwrthod